# City & Guilds Diploma mewn Cynnal a Chadw Systemau Cerbydau Lefel Mynediad 3



**Yn gryno**

Bwriad y cwrs hwn yw cynnig golwg gyffredinol ar y dechnoleg a'r technegau trwsio sy'n gysylltiedig â cherbydau ysgafn. Hefyd, bydd yn eich paratoi ar gyfer astudiaeth bellach yn y diwydiant modurol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych eisiau dealltwriaeth sylfaenol o'r diwydiant modurol

... Ydych eisiau symud yn eich blaen at gyrsiau lefel uwch

... Ydych yn awyddus i weithio mewn garej neu ddelwriaeth

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae rhai o'r unedau craidd ac ychwanegol y byddwch yn eu hastudio'n cynnwys:

Iro
Systemau oeri
Peipiau mwg
Systemau tanio
Systemau trydanol
Systemau brecio
Systemau trawsyrru
Systemau llywio
Systemau crogiant
Olwynion a theiars
Glanhau

Caiff y cwrs hwn ei asesu trwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau, fel arholiadau ysgrifenedig ac ymarferol. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Lefel Mynediad 3 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant
Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Nid oes yn rhaid meddu ar unrhyw gymwysterau ffurfiol, ond rhaid ichi fod â diddordeb gwirioneddol mewn technoleg cerbydau. Hefyd, byddai dealltwriaeth sylfaenol o sgiliau peirianneg fecanyddol a thrydanol o fantais.

Mae'n ofynnol ymrwymo'n llwyr i fynychu'r cwrs, a hefyd mae'r gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm yn ofynnol. Disgwylir ichi gadw at ethos y coleg a bod yn barod i wella eich lefel mewn pynciau academaidd.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Diploma Lefel 1 mewn Cynnal a Chadw Cerbydau Ysgafn neu Brentisiaeth.